# Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru Adroddiad Blynyddol 2024 – 2025

Awst 2025

Tribiwnlys Adolygu
Iechyd Meddwl Cymru

Mental Health Review
Tribunal for Wales

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 3 |
| **Adran 1** | Amdanom Ni | 4 |
| **Adran 2** | Perfformiad a Chynnydd | 8 |
| **Adran 3** | Gwariant | 15 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52908, ISBN digidol 978-1-80633-383-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025.

Ar 31 Mawrth 2025, ymddeolodd Llywydd y Tribiwnlys, Carolyn Kirby OBE, ar ôl dros 25 mlynedd yn y swydd. Mae pawb a weithiodd gyda hi yn ymwybodol iawn o'i harweinyddiaeth, ei huniondeb a'i hymrwymiad diwyro i'r rhai a ymddangosodd yn y tribiwnlys; ac rydym yn diolch o galon iddi am ei chyfraniad sylweddol i'r Tribiwnlys yn ogystal ag i gyfiawnder yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Mae'r rhain yn esgidiau mawr i'w llenwi, ond mae'r broses i ddod o hyd i'w holynydd ar y gweill, ac rydym yn edrych ymlaen at groesawu'r olynydd yn ddiweddarach eleni.

Mae'r Tribiwnlys yn delio â materion neilltuol o sensitif a chyfrinachol sy'n ymwneud â rhyddid claf a diogelu'r cyhoedd, a hynny yng nghyd-destun cynllun statudol cymhleth. Mae gwrandawiadau, o reidrwydd, yn cael eu cynnal yn breifat i ddiogelu urddas a chyfrinachedd y rhai dan sylw, ac mae penderfyniadau'n cael eu cyhoeddi i'r partïon dan sylw yn unig.

Hoffwn fynegi fy niolch diffuant i aelodau'r Tribiwnlys a'n tîm gweinyddol am eu gwaith yn y maes heriol hwn. Mae eu proffesiynoldeb, eu harbenigedd, eu hyblygrwydd, eu hymroddiad a'u hymrwymiad wedi sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel, er gwaethaf pwysau ariannol a gweithredol parhaus.

Wrth inni edrych ymlaen at bennod newydd yn arweinyddiaeth y Tribiwnlys, rydym wedi ymrwymo o hyd i welliant parhaus, hygyrchedd, a chyflawni cyfiawnder i bawb rydym yn eu gwasanaethu.

Byddai croeso mawr i unrhyw gwestiynau neu sylwadau sy'n codi am unrhyw agwedd ar waith y Tribiwnlys, neu am gynnwys yr adroddiad hwn. Dylai unrhyw ymholiadau neu sylwadau gael eu hanfon i ddechrau at Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys.

**Y Gwir Anrhydeddus Syr Gary Hickinbottom**
Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

# Adran 1 – Amdanom Ni

**Yn yr adran hon:**

- Sail y Tribiwnlys
- Swyddogaeth y Tribiwnlys
- Rheolau'r Tribiwnlys
- Aelodau'r Tribiwnlys
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Arfarnu
- Cysylltu â'r Tribiwnlys
- Mynediad at y Tribiwnlys

## Sail y Tribiwnlys

Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn gorff barnwrol annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1959 sy'n gweithredu'n unol â darpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd). Y Tribiwnlys sy'n gyfrifol am benderfynu ar geisiadau ac atgyfeiriadau yn ymwneud â chleifion sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, cleifion sy'n destun gorchymyn triniaeth gymunedol, gorchymyn gwarcheidiaeth, a chleifion sy'n cael eu rhyddhau'n amodol o'r ysbyty.

Mae'r Tribiwnlys yn gorff barnwrol sy'n annibynnol ar y llywodraeth, a phenodir ei aelodau gan yr Arglwydd Ganghellor.

## Swyddogaeth y Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn cynnig gwarchodaeth sylweddol i gleifion y mae eu rhyddid wedi'i gyfyngu o dan y Deddf Iechyd Meddwl. Mater i'r rheini sy'n credu y dylai claf barhau i fod yn agored i gael ei gadw, neu barhau i gael triniaeth gymunedol o dan oruchwyliaeth, yw profi eu hachos – ac nid mater i'r claf yw gwrthbrofi hynny. Felly, mae angen iddynt gyflwyno tystiolaeth ddigonol i'r Tribiwnlys i gefnogi eu hachos. Adroddiadau cymdeithasol a chlinigol yw asgwrn cefn y dystiolaeth hon a chaiff y rhain eu trafod ar lafar mewn gwrandawiadau gyda'r claf yn bresennol. Mae'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn wedi'u pennu'n glir yn Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl 2008.

## Rheolau'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn gweithredu yn unol â'r gweithdrefnau a nodwyd yn Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl 2008, sydd i'w cael yma:
www.mentalhealthlaw.co.uk/Mental Health_Review_Tribunal_for_Wales_Rules_2008

Diben Rheolau 2008 yw sicrhau bod y Tribiwnlys yn ymdrin â phob achos a glywir ganddo yn deg, yn gyfiawn, yn effeithlon ac yn gyflym. Mae'r Rheolau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Tribiwnlys sicrhau, hyd y bo modd, bod pawb yn gallu cymryd rhan lawn yn yr achos.

Mae ceisiadau ac atgyfeiriadau i'r Tribiwnlys yn perthyn yn fras i dri chategori:

**Cleifion o dan gyfyngiadau** – troseddwyr ag anhwylder meddwl yw'r rhain, sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty i gael triniaeth, ac sy'n destun rheolaethau arbennig gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder oherwydd lefel y risg y maent yn ei pheri. Mae'n bosibl y byddant yn cael eu rhyddhau'n amodol maes o law, fel rhan o'r broses raddol o ailymuno â'r gymuned. Mae gan y Tribiwnlys awdurdodaeth i wneud penderfyniadau ynghylch rhyddhad diamod ac amodol cleifion o dan gyfyngiadau, yn ogystal ag amrywio'r amodau a osodir arnynt.

**Cleifion nad ydynt o dan gyfyngiadau** – cleifion nad ydynt yn droseddwyr yw'r rhain, sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty, o dan naill ai adran 2 neu adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Maent yn dioddef o anhwylder meddwl o natur neu raddfa sy'n golygu bod angen iddynt gael eu cadw yn yr ysbyty. Caiff adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ei defnyddio pan fydd angen asesiad, neu asesiad wedi'i ddilyn gan driniaeth feddygol, am gyfnod penodol o leiaf, a chaiff adran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ei defnyddio pan fydd angen triniaeth. Gwaith y Tribiwnlys yw penderfynu a yw'r meini prawf sy'n cyfiawnhau cadw'r claf yn yr ysbyty yn dal i gael eu bodloni ar adeg y gwrandawiad.

**Cleifion cymunedol** – nid yw'r cleifion hyn yn cael eu cadw yn yr ysbyty, ond mae'n bosibl eu bod yn destun gorchymyn triniaeth gymunedol neu orchymyn gwarcheidiaeth. Gwaith y Tribiwnlys yw penderfynu a yw'r meini prawf sy'n cyfiawnhau'r gorchmynion hyn yn dal i gael eu bodloni ar adeg y gwrandawiad.

## Aelodau'r Tribiwnlys

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi Llywydd a holl aelodau'r Tribiwnlys. Caiff penodiadau eu gwneud ar ôl hysbysebu swyddi gwag, ac ar ôl i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol gynnal proses gyfweld gystadleuol.

**Llywydd**
Mrs Carolyn Kirby, OBE

**Barnwyr Tribiwnlys Cyflogedig**
Y Barnwr Tribiwnlys Christine Butcher
Y Barnwr Tribiwnlys Richard Payne
Yr Aelod Meddygol Arweiniol
Dr Gaynor Jones

**31**
o aelodau cyfreithiol

**43**
o aelodau meddygol

**40**
o aelodau lleyg

**Rôl yr aelod cyfreithiol** – Rôl yr aelod cyfreithiol yw llywyddu (h.y. cadeirio) mewn gwrandawiadau tribiwnlys. Mae ei gyfrifoldebau hefyd yn cynnwys gwneud yn siŵr bod achosion yn cael eu cynnal yn deg a bod gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu dilyn yn briodol, a rhoi cyngor ar unrhyw gwestiynau cyfreithiol sy'n codi. Mae'r aelod cyfreithiol hefyd yn gyfrifol, ar ôl ymgynghori ag aelodau eraill y Tribiwnlys, am ddrafftio'r rhesymau dros y penderfyniad ac am lofnodi'r cofnod o'r penderfyniad. Disgwylir i'r aelodau cyfreithiol fod â 'phrofiad cyfreithiol y mae'r Arglwydd Ganghellor yn ei ystyried yn briodol'.

**Rôl yr aelod meddygol** – Mae gan aelod meddygol y tribiwnlys rôl ddeuol i'w chyflawni. Mae Rheolau'r Tribiwnlys yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelod archwilio'r claf cyn y gwrandawiad, a chymryd unrhyw gamau y mae'n ystyried eu bod yn briodol er mwyn llunio barn ynghylch cyflwr meddyliol y claf. Yn ystod y gwrandawiad, yr aelod meddygol, ynghyd â'r aelodau eraill, sydd â'r cyfrifoldeb barnwrol dros benderfynu ar ganlyniad y gwrandawiad. Yn ddieithriad, mae aelod meddygol y tribiwnlys yn seiciatrydd ymgynghorol â blynyddoedd lawer o brofiad. Bydd yn gallu cynghori aelodau eraill y Tribiwnlys ar unrhyw faterion meddygol.

**Rôl yr aelod lleyg** – Nid yw'r aelod lleyg yn gyfreithiwr nac yn seiciatrydd, ond mae'n cynnig gwybodaeth a phrofiad arall sy'n berthnasol i awdurdodaeth y Tribiwnlys. Gall yr aelod lleyg gyfrannu gwybodaeth ynghylch salwch meddwl, gwasanaethau cymdeithasol neu iechyd meddwl, hawliau cleifion a materion cymunedol at y broses o ystyried achos y claf.

**Yr ysgrifenyddiaeth** – Mae'r gwaith gweinyddu o ddydd i ddydd yn cael ei dirprwyo i raddau helaeth i'r ysgrifenyddiaeth, sy'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau ac atgyfeiriadau i'r Tribiwnlys. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd neu'r dirprwyon ynghylch yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau cychwynnol cyn y gwrandawiad, a bydd yn rhoi gwybod i'r partïon yn ysgrifenedig am y penderfyniadau a'r cyfarwyddiadau. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer holl aelodau a defnyddwyr y Tribiwnlys. Bydd aelodau o'r ysgrifenyddiaeth yn bresennol mewn rhai gwrandawiadau i helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.

## Penodiadau

Ar ôl i lansio ymarfer i ddethol Barnwyr Tribiwnlys Cyflogedig yn ystod 2023, llwyddwyd i benodi 2 Farnwr Tribiwnlys Cyflogedig i'r Tribiwnlys yn 2024/2025.

Yn ystod chwarter olaf 2023/24 lansiwyd ymarfer datgan diddordeb ar gyfer Aelod Meddygol Arweiniol i'r Tribiwnlys, a dechreuodd yr ymgeisydd llwyddiannus ar ei rôl yn 2024/2025.

Lansiwyd ymgyrch trawsdocynnu gydag aelodau meddygol y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol yn ystod 2024/2025. Llwyddodd y Tribiwnlys i benodi 3 aelod meddygol ar sail trawsdocynnu yn ystod 2024/2025.

## Hyfforddiant

I sicrhau bod y Tribiwnlys yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, mae'n bwysig bod yr holl aelodau wedi'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ym maes ymarfer a chyfraith iechyd meddwl.

Mae'r Tribiwnlys wedi ymrwymo'n llwyr i'r broses hon a chynhaliodd nifer o weithdai i'r aelodau yn ystod gwanwyn 2024 a 2025. Rhoddodd y rhain gyfle i'r aelodau gyfarfod a chydweithio ar sefyllfaoedd a oedd wedi'u paratoi gan ddilyn pynciau hyfforddiant a awgrymwyd. Drwy weithio mewn grwpiau a rhannu barn, roedd pob aelod yn gallu cydweithio ac ychwanegu at y ffyrdd gorau o weithio a fydd yn cael eu defnyddio mewn tribiwnlysoedd yn y dyfodol.

Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol i'r holl aelodau yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2024.

Anerchwyd yr aelodau gan Lywydd y Tribiwnlys, Carolyn Kirby OBE, a bu'n bwrw golwg dros waith y Tribiwnlys yn ystod y flwyddyn.

Rhoddodd y Barnwr Tribiwnlys Cyflogedig, Mr Richard Payne, gyflwyniad ar y rhyngwyneb rhwng y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r defnydd o fesurau diogelu wrth amddifadu o ryddid wrth i gleifion gael eu rhyddhau. Cynhaliodd y Llywydd Kirby a Dr Gaynor Jones, yr Aelod Meddygol Arweiniol, sesiwn holi ac ateb ar Archwiliadau Cyn Gwrandawiad ac adborth i'r panel a'r partïon. Bu'r Barnwr Tribiwnlys Cyflogedig, Mr Richard Payne, a'r Barnwr Tribiwnlys Cyflogedig, Mrs Christine Butcher, yn trafod gwrandawiadau anodd gyda'r aelodau, a sut i ddelio â materion ar y diwrnod. Rhoddodd y Barnwr Payne a'r Barnwr Butcher gyflwyniad ar newidiadau, o ganlyniad i gyfraith achos, sy'n cael effaith ar y tribiwnlys.

Ar ôl y gynhadledd, casglwyd adborth gan yr aelodau, a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio hyfforddiant yn y dyfodol.

## Cysylltu â'r Tribiwnlys

**Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru**
Blwch Post 1143
Caerdydd
CF11 1WX

Llinell Gymorth y Tribiwnlys: 0300 0255 328

E-bost y Tribiwnlys: mhrt@llyw.cymru

Gwefan: https://tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru

## Mynediad at y Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn hapus i gyfathrebu â defnyddwyr yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd, byddwn yn trefnu bod un yn cysylltu â'r defnyddiwr cyn gynted â phosibl.

Gall cleifion ddewis cael gwrandawiad tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf, gellir trefnu bod cyfieithydd ar y pryd ar gael yn y gwrandawiad. Os bydd angen i ddehonglydd iaith arwyddion fod yn bresennol yn y gwrandawiad, gallwn drefnu hynny hefyd, cyhyd ag y bo ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys yn cael digon o rybudd.

Os oes gan unrhyw un sy'n mynychu'r gwrandawiad ofynion mynediad a allai effeithio ar drefniadau gwrandawiad, bydd darpariaethau'n cael eu gwneud cyhyd ag y bo ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys yn cael digon o rybudd.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

**Yn yr adran hon:**

- Niferoedd ac Ystadegau
- Apeliadau
- Cwynion
- Targedau Statudol a Thargedau Arferion Gorau

## Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn tribiwnlys yn dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth.

Dyma'r ystadegau a gaiff eu casglu:

Nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau a dderbynnir.

Nifer y ffeiliau achos sy'n deillio o'r ceisiadau a'r atgyfeiriadau hyn.

Nifer y gwrandawiadau a gynhelir.

Nifer y ffeiliau achos a gafodd eu gwneud yn derfynol yn y gwrandawiad cyntaf.

Nifer y ffeiliau achos na symudodd ymlaen i wrandawiad, a'r rhesymau.

## Ceisiadau ac atgyfeiriadau a ddaeth i law, a'u ffeiliau achos

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, cafodd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 1,825 o geisiadau neu atgyfeiriadau ar gyfer gwrandawiad tribiwnlys.

Gall cais neu atgyfeiriad arwain at drefnu nifer o wrandawiadau, gan ei bod yn bosibl y bydd yr un cais yn cael ei ohirio cyn iddo ddechrau neu ar ôl iddo ddechrau, a hynny am amryw o resymau ac ar fwy nag un achlysur. Felly, bydd nifer o wahanol ffeiliau achos yn cael eu creu.

Caiff ffeil achos ei chreu ar gyfer pob cais neu atgyfeiriad a ddaw i law, ac felly mae'n bosibl y bydd sawl ffeil achos yn cael ei chreu ar gyfer claf yn ystod ei gyfnod cadw. Bob tro y bydd gwrandawiad yn cael ei bennu ac nad yw'n dod i gasgliad, mae ffeil achos newydd yn cael ei chreu ar gyfer yr un cais neu atgyfeiriad. Er enghraifft, mae Joe Bloggs yn gwneud cais ac mae ffeil achos yn cael ei chreu. Mae'r gwrandawiad cyntaf wedi'i drefnu ond mae'n cael ei ohirio, felly mae'r ffeil achos gyntaf yn cael ei chau a ffeil achos newydd yn cael ei hagor fel bod modd i'r gwrandawiad newydd gael ei drefnu. Mae hyn yn caniatáu i'r Tribiwnlys gofnodi ffigurau ac ystadegau achosion yn fwy manwl.

Mae'n werth nodi hefyd na fydd yr holl ffeiliau achos a grëwyd o geisiadau a ddaeth i law wedi symud ymlaen i gam lle mae gwrandawiad wedi'i drefnu.

O'r ceisiadau a'r atgyfeiriadau a ddaeth i law rhwng 1 Ebrill 2024 ac 1 Mawrth 2025, crëwyd 2,232 o achosion.

Ni chaewyd pob un o'r ffeiliau achos hynny erbyn 31 Mawrth 2025. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad mae 35 o achosion i'w clywed o hyd yn y flwyddyn ariannol nesaf (1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026).

## Pob ffeil achos a grëwyd a'u canlyniad

Mae'r tabl isod yn dangos pob achos a grëwyd o geisiadau/atgyfeiriadau a ddaeth i law yn 2024/2025, a chanlyniad terfynol yr achosion hynny.

Os nad yw esboniad am statws wedi'i restru isod, gellir ei weld ar ein gwefan drwy ddilyn y ddolen a ganlyn https://tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru/sites/mentalhealthreview/files/2019-06/170420-mhrtw-16-list-of-words-cy.pdf

**Tabl 1**

| Canlyniad yr Achos | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| Rhyddhau'n llwyr | 4 |
| Gohirio ar ôl dechrau | 183 |
| Rhyddhau'n amodol | 11 |
| Marw<br>(bu farw'r claf cyn y gallai'r achos fynd rhagddo) | 3 |
| Rhyddhau amodol gohiriedig | 0 |
| Rhyddhau gohiriedig | 14 |
| Rhyddhau | 45 |
| Anffurfiol<br>(y claf wedi'i ryddhau gan yr awdurdod a oedd yn ei gadw) | 524 |
| Heb ei ryddhau | 765 |
| Agored<br>(yr achos heb ei glywed eto) | 35 |
| Gohirio cyn dechrau | 228 |
| Cais anghymwys<br>(y ceisiadau neu'r atgyfeiriadau wedi'u gwneud yn anghywir i'r Tribiwnlys) | 31 |
| Trosglwyddwyd o'r ardal<br>(y claf wedi'i drosglwyddo o Gymru cyn i'r achos symud ymlaen i wrandawiad) | 34 |
| Wedi'i dynnu'n ôl<br>(y claf wedi tynnu'r cais yn ôl cyn diwrnod y gwrandawiad) | 283 |
| Wedi'i dynnu'n ôl ar y diwrnod<br>(y claf wedi tynnu'r cais yn ôl wedi i'r gwrandawiad ddechrau) | 72 |
| Cyfanswm | 2232 |

## Ceisiadau ac atgyfeiriadau a ddaeth i law na symudodd ymlaen at wrandawiad, a'r rhesymau pam

O'r 2,232 o achosion y manylir arnynt yn Nhabl 1 uchod, ni symudodd cyfanswm o 144 o geisiadau ac atgyfeiriadau ymlaen at wrandawiad. Mae'r tabl isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am y rhesymau pam.

**Tabl 2**

| Rheswm dros beidio â symud ymlaen at wrandawiad | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| Marw<br>(y claf wedi marw) | 2 |
| Anffurfiol<br>(y claf wedi'i ryddhau gan yr awdurdod a oedd yn ei gadw) | 84 |
| Cais anghymwys<br>(y ceisiadau neu'r atgyfeiriadau wedi'u gwneud yn anghywir i'r Tribiwnlys) | 25 |
| Trosglwyddwyd o'r ardal<br>(y claf wedi'i drosglwyddo o Gymru cyn symud ymlaen i wrandawiad) | 9 |
| Wedi'i dynnu'n ôl<br>(y claf wedi tynnu'r cais yn ôl) | 24 |
| Cyfanswm | 144 |

## Gwrandawiadau wedi'u trefnu

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, trefnwyd cyfanswm o 2074 o wrandawiadau. Nid yw'r gwrandawiadau a drefnwyd yn 2024/2025 i gyd yn deillio o geisiadau ac atgyfeiriadau a ddaeth i law yn yr un flwyddyn, ac felly fe'u cofnodir ar wahân.

## Gwrandawiadau a drefnwyd a arweiniodd at ganlyniad

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r gwrandawiadau a gynhaliwyd yn 2024/2025 a arweiniodd at ganlyniad. At ddibenion yr adroddiad hwn, cymerir bod canlyniad yn golygu bod y claf naill ai (amrywiad ar) wedi'i ryddhau neu heb ei ryddhau, neu wedi tynnu ei gais yn ôl yn ystod y gwrandawiad.

**Tabl 3**

| Mis | O dan gyfyngiadau | Cymunedol | Ddim o dan gyfyngiadau | Cyfanswm (Mis) |
|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 12 | 5 | 50 | 67 |
| Mai | 14 | 7 | 61 | 82 |
| Mehefin | 8 | 10 | 59 | 77 |
| Gorffennaf | 11 | 5 | 61 | 77 |
| Awst | 13 | 7 | 73 | 93 |
| Medi | 5 | 8 | 59 | 72 |
| Hydref | 8 | 8 | 62 | 78 |
| Tachwedd | 5 | 6 | 53 | 64 |
| Rhagfyr | 8 | 4 | 68 | 80 |

| Mis | O dan gyfyngiadau | Cymunedol | Ddim o dan gyfyngiadau | Cyfanswm (Mis) |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 4 | 6 | 60 | 70 |
| Chwefror | 10 | 6 | 67 | 83 |
| Mawrth | 5 | 5 | 68 | 78 |
| Cyfanswm (Blwyddyn) | 103 | 77 | 741 | 921 |

O'r gwrandawiadau uchod, arweiniodd 83 at ryddhau'r claf.

Arweiniodd 769 o wrandawiadau at beidio â rhyddhau'r claf.

Tynnwyd 69 o geisiadau yn ôl ar y diwrnod ar gais y claf.

O'r gwrandawiadau ar gyfer cleifion heb fod o dan gyfyngiadau a gynhaliwyd, roedd 292 yn geisiadau adran 2/atgyfeiriadau gan weinidogion Cymru.

## Nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau a gwblhawyd yn y gwrandawiad cyntaf

Llwyddwyd i sicrhau canlyniad yn y gwrandawiad cyntaf mewn cyfanswm o 701 o achosion.

## Gwrandawiadau a drefnwyd ond na chynhaliwyd, a'r rhesymau

Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am y rhesymau pam na wnaeth gwrandawiadau arwain at ganlyniad terfynol.

Byddai gwrandawiad wedi cael ei aildrefnu yn ddiweddarach ar gyfer pob un o'r achosion isod a ohiriwyd cyn iddynt ddechrau.

**Tabl 4**

| Rheswm dros beidio â mynd ymlaen i wrandawiad | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| Anffurfiol<br>(y claf wedi'i ryddhau gan yr awdurdod a oedd yn ei gadw yn yr ysbyty cyn i'r achos symud ymlaen i wrandawiad) | 461 |
| Wedi'i dynnu'n ôl<br>(y claf wedi tynnu'r cais yn ôl cyn i'r achos symud ymlaen i wrandawiad) | 253 |
| Marw<br>(y claf wedi marw cyn i'r achos symud ymlaen i wrandawiad) | 2 |
| Gohirio cyn dechrau<br>(y ceisiadau neu'r atgyfeiriadau wedi'u gohirio cyn symud ymlaen i wrandawiad) | 221 |
| Cais anghymwys<br>(y ceisiadau neu'r atgyfeiriadau wedi'u gwneud yn anghywir i'r Tribiwnlys) | 7 |
| Trosglwyddwyd o'r ardal<br>(y claf wedi'i drosglwyddo o Gymru cyn i'r achos symud ymlaen i wrandawiad) | 22 |
| Cyfanswm | 966 |

Yn ychwanegol at y tablau uchod, cafodd 187 o achosion eu gohirio ar ôl iddynt ddechrau (gwrandawiadau i'w cynnal rywbryd eto), cyn dod i benderfyniad terfynol.

## Apeliadau

Nid oes darpariaeth statudol i'r Tribiwnlys adolygu penderfyniad – dim ond penderfynu a ddylid caniatáu apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Gall partïon ofyn am ganiatâd gan y Llywydd i gyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniad gan y tribiwnlys ar sail gwall cyfreithiol. Os bydd y Llywydd yn gwrthod rhoi caniatâd i apelio, gellir cyflwyno cais i'r Uwch Dribiwnlys yn uniongyrchol am ganiatâd i apelio.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni chyflwynwyd unrhyw gais i'r Cadeirydd am ganiatâd i gyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys.

## Cwynion

Ni chafodd y Tribiwnlys unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn.

## Targedau Statudol a Thargedau Arferion Gorau

Mae gan y Tribiwnlys bedwar terfyn amser statudol y mae'n rhaid iddo eu bodloni.

**Rhestru achosion adran 2 o fewn 7 diwrnod iddynt ddod i law**

Rhaid i bob cais neu atgyfeiriad adran 2 a ddaw i law gael ei restru o fewn saith niwrnod i'r dyddiad derbyn. Os caiff y gwrandawiad ei ohirio cyn iddo ddechrau neu ar ôl iddo ddechrau, caiff y dyddiad rhestru statudol ei ddileu; fodd bynnag, rhaid i'r achos gael ei glywed cyn i'r adran ddod i ben. Os yw'r dyddiad cau yn disgyn ar Ŵyl y Banc, ystyrir mai'r diwrnod gwaith nesaf yw'r dyddiad cau.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall unrhyw Barti i wrandawiad y Tribiwnlys ofyn am estyniad i ddyddiad rhestru gwrandawiad adran 2. Rhaid iddynt gyflwyno rhesymau digonol dros eu cais, a fydd wedyn yn cael eu hystyried gan y Llywydd neu un o'i Dirprwyon. Os cytunir ar y rhesymau, bydd y gwrandawiad wedyn yn cael ei restru ar yr 8fed diwrnod ar ôl derbyn y cais/atgyfeiriad.

Daeth 529 o geisiadau/atgyfeiriadau adran 2 i law a chawsant eu rhestru ar gyfer y gwrandawiad cyntaf.

Rhestrwyd 468 o wrandawiadau o fewn yr amserlen statudol.

Rhestrwyd 9 o'r gwrandawiadau ar ôl 7 diwrnod oherwydd Gŵyl y Banc.

Rhestrwyd 52 o'r gwrandawiadau ar yr 8fed diwrnod neu ar ôl hynny, gyda chaniatâd y Llywydd neu ei Dirprwyon.

**Atgyfeiriadau adalw o dan gyfyngiad a restrwyd rhwng 5 ac 8 wythnos**

Rhaid i holl Atgyfeiriadau Adalw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a ddaw i law gael eu rhestru o fewn pump i wyth wythnos i'r dyddiad derbyn. Os caiff y gwrandawiad ei ohirio wedyn cyn neu ar ôl iddo ddechrau, caiff y dyddiad rhestru statudol ei ddileu. Os yw'r dyddiad cau ar gyfer rhestru yn digwydd ar Ŵyl y Banc, ystyrir mai'r diwrnod gwaith nesaf yw'r diwrnod olaf posibl.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall unrhyw Barti i wrandawiad y Tribiwnlys ofyn am estyniad i ddyddiad rhestru Atgyfeiriad Adalw. Rhaid iddynt gyflwyno rhesymau digonol dros eu cais, a fydd wedyn yn cael eu hystyried gan y Llywydd neu un o'i Dirprwyon. Os cytunir ar y rhesymau, bydd y gwrandawiad wedyn yn cael ei restru ar y dyddiad nesaf sydd ar gael.

Dim ond aelod o Banel Cleifion o dan Gyfyngiadau a gaiff gadeirio gwrandawiad ar gyfer Atgyfeiriad Adalw. Mewn rhai achosion, efallai na fydd aelod o'r Panel ar gael i gadeirio'r gwrandawiad o fewn yr amserlen statudol. Gwneir pob ymdrech i gael aelod o'r Panel, ond os nad yw hyn yn bosibl, gellir rhestru'r gwrandawiad hefyd ar ôl y dyddiad cau.

Cafwyd 15 o Atgyfeiriadau Adalw y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac aethant ymlaen i gael eu rhestru ar gyfer y gwrandawiad cyntaf.

Rhestrwyd 11 o wrandawiadau o fewn yr amserlen statudol.

Rhestrwyd 4 o'r gwrandawiadau ar ôl yr amserlen statudol, gyda chaniatâd y Llywydd neu ei Dirprwyon.

**Rhoi penderfyniadau adran 2 o fewn 3 diwrnod gwaith**

Cafodd 72% o benderfyniadau adran 2 eu rhoi o fewn 3 diwrnod gwaith.

O'r 28% o benderfyniadau a roddwyd y tu allan i'r amserlen, roedd 15% ohonynt wedi dod i law ar ôl y dyddiad cau. Daeth y 13% arall i law mewn pryd, ond cawsant eu rhoi o leiaf un diwrnod ar ôl y dyddiad cau.

**Penderfyniadau ar gyfer pob adran arall a roddwyd o fewn 7 diwrnod calendr**

Cafodd 88% o'r holl benderfyniadau ar gyfer adrannau eraill eu rhoi o fewn 7 diwrnod calendr

O'r 12% o benderfyniadau a roddwyd y tu allan i'r amserlen, roedd 8% ohonynt wedi dod i law ar ôl y dyddiad cau. Daeth y 4% arall i law mewn pryd, ond cawsant eu rhoi o leiaf un diwrnod ar ôl y dyddiad cau.

## Targedau Arferion Gorau

Mae gan y Tribiwnlys dri tharged Arfer Gorau i'w cyrraedd.

**Cydnabod pob achos o fewn 3 diwrnod gwaith**

Cafodd 98% o'r holl geisiadau ac atgyfeiriadau a ddaeth i law eu cydnabod o fewn y targed arfer gorau.

**Rhestru achosion nad ydynt o dan gyfyngiad o fewn 8 wythnos**

Rhestrwyd 84% o holl achosion cleifion nad ydynt o dan gyfyngiadau o fewn y targed arfer gorau.

Mae'n bosibl fod rhai achosion wedi'u rhestru 1 neu 2 ddiwrnod yn hwyrach na'r dyddiad cau am resymau amrywiol, gan gynnwys:

- Nid oedd aelod o'r tîm gofal yr oedd yn ofynnol iddo/iddi fynychu'r gwrandawiad ar gael o fewn yr amserlenni a ddarparwyd
- Nid oedd cynrychiolydd cyfreithiol y claf ar gael o fewn yr amserlenni a ddarparwyd
- Nid oedd aelodau'r panel ar gael i glywed yr achos mewn gwrandawiad.

**Rhestru achosion o dan gyfyngiadau o fewn 14 wythnos**

Rhestrwyd 93% o'r holl achosion o dan gyfyngiadau o fewn y targed arferion gorau.

Mae'n bosibl bod rhai achosion hefyd wedi'u rhestru 1 neu 2 ddiwrnod yn hwyrach na'r dyddiad cau am resymau eraill, gan gynnwys:

- Prinder barnwyr ar y panel cleifion o dan gyfyngiadau
- Nid oedd aelod o'r tîm gofal yr oedd yn ofynnol iddo/iddi fynychu'r gwrandawiad ar gael o fewn yr amserlenni a ddarparwyd
- Nid oedd cynrychiolydd cyfreithiol y claf ar gael o fewn yr amserlenni a ddarparwyd
- Nid oedd aelodau'r panel ar gael i glywed yr achos mewn gwrandawiad.

# Adran 3 – Gwariant

**Yn yr adran hon:**

- Gwariant ar gyfer 2024-2025

## Gwariant ar gyfer 2024-2025

| Eitem | Swm (£)* |
|---|---|
| Cyfanswm Costau Rhedeg y Tribiwnlys† | 3,339,200 |
| Cyfran a briodolir i hyfforddiant | 161,500 |

* Wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf.

† Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw gostau staff gweinyddol.